# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

## 13 Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau

(1) Yn ddarostyngedig i is-adran (2), mae cyfeiriadau yn yr adran hon at dymor [[F1]Senedd] yn gyfeiriadau at y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cynhelir pôl mewn etholiad cyffredinol cyffredin i'r [[F1]Senedd] ac sy'n diweddu ar y diwrnod cyn y diwrnod y cynhelir pôl yn yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf i'r [[F1]Senedd] .

(2) Os bydd—

- (a) etholiad cyffredinol anghyffredin i'r [[F1]Senedd] yn cael ei gynnal, a
- (b) bod adran 5(5) o'r Ddeddf yn gymwys,

wedyn, at ddibenion yr adran hon, mae tymor y [[F1]Senedd] yn diweddu ar y diwrnod cyn y diwrnod y cynhelir y pôl ar gyfer yr etholiad cyffredinol anghyffredin hwnnw ac mae tymor nesaf y [[F1]Senedd] yn dechrau ar y diwrnod y cynhelir y pôl hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4) ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag—

- (a) un penderfyniad sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 20(1) o'r Ddeddf (talu cyflogau i [[F2]Aelodau o'r Senedd]), a
- (b) un penderfyniad sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 53(1) o'r Ddeddf (talu cyflogau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru),

sydd i fod yn effeithiol yn ystod pob un o dymhorau'r [[F1]Senedd] .

(4) Nid yw is-adran (3) yn gymwys os yw'r Bwrdd o'r farn bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan is-adran (3) beidio â bod yn gymwys.

(5) Os bydd y Bwrdd yn ffurfio barn o'r math y cyfeirir ati yn is-adran (4) rhaid iddo ddatgan mewn ysgrifen ei resymau dros fod wedi gwneud hynny, gan gyfleu'r datganiad hwnnw i Gomisiwn y [[F1]Senedd] yr un pryd â'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i Gomisiwn y [F1Senedd] osod gerbron y [F1Senedd] unrhyw ddatganiad a gyflëir iddo o dan is-adran (5) yr un pryd ag y bydd yn gosod gerbron y [F1Senedd] y penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef.

(7) Rhaid i'r Bwrdd, o ran pob tymor [F1Senedd], wneud penderfyniad sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 20(1) o'r Ddeddf ac sydd i fod yn effeithiol, pryd bynnag y'i gwnaed, o ddechrau'r tymor hwnnw.

(8) Rhaid i'r Bwrdd, o ran pob tymor [F1Senedd], wneud penderfyniad sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 53(1) o'r Ddeddf ac sydd i fod yn effeithiol, pryd bynnag y'i gwnaed, o ddechrau'r tymor hwnnw.

(9) Rhaid i'r Bwrdd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, wneud y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn is-adrannau (7) ac (8) cyn diwedd y tymor [F1Senedd] cyn y tymor [F1Senedd] y maent i fod yn effeithiol mewn perthynas ag ef, ond os yw'n methu â gwneud hynny, rhaid i Gomisiwn y [F1Senedd] —

(a) nes bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud, barhau i wneud taliadau yn unol â'r penderfyniadau a gafodd effaith mewn perthynas â'r tymor blaenorol hwnnw o'r [F1Senedd], a

(b) pan gaiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud, addasu unrhyw daliadau dilynol i wneud iawn am unrhyw dandaliadau neu adennill unrhyw ordaliadau, yn ôl fel y digwydd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**F2** Geiriau yn Measure wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(10)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 4(7)(8))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 mewn grym ar 24.9.2010 yn unol ag **a. 20(3)(4)** ac fel y nodir yn yr hysbysiad gofynnol, gweler https://senedd.cymru/media/1t3mmgav/gen-ld8227-e-cymraeg.pdf

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 13.